# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**EO 07**

**Ymchwiliad i ganlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel**

**Tystiolaeth gan: Afasic Cymru**

Afasic yw elusen y DU sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, gan weithio tuag at eu cynnwys yn y gymdeithas a chefnogi eu rhieni a'u gofalwyr.

Mae Afasic yn sefydliad aelodau sy'n dathlu 45 mlynedd eleni. Mae ein haelodau yn cynnwys rhieni, pobl ifanc ag anghenion lleferydd ac iaith a chyfathrebu, gweithwyr proffesiynol ac eraill sy'n ein cefnogi. Cafodd Afasic Cymru ei sefydlu yn sgil datganoli a gwnaeth ddathlu deng mlynedd y llynedd.

Ein gweledigaeth yw un o gymdeithas sy'n dathlu 'cyfathrebu' fel hawl ddynol sylfaenol, a lle mae plant a phobl ifanc hyd at 25 oed, sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt er mwyn eu galluogi i gyrraedd eu potensial a chwarae rhan lawn ynddi.

## Gwybodaeth am anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

Mae lleferydd, iaith a chyfathrebu yn sgiliau sylfaenol mewn bywyd. Mae sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ategu llythrennedd, dysgu yn yr ysgol ac yn y coleg, cymdeithasu a gwneud ffrindiau, ac maent yn hanfodol o ran rhagolygon gwaith a deall a rheoli emosiynau neu deimladau.

Mae llawer o blant a phobl ifanc yn ei chael hi'n anodd cyfathrebu. Mae rhai o'u hanghenion cyfathrebu yn rhai dros dro ac mae eraill yn fwy parhaus. Mae astudiaethau ledled y DU wedi dangos bod gan tua 10% o blant anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu parhaus a all fod yn brif anhawster plentyn neu fod yn gysylltiedig â chyflyrau eraill fel awtistiaeth.

Mae'n bosibl y bydd gan blentyn neu berson ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yr anawsterau canlynol:

- deall iaith
- dysgu a chofio geiriau, a rhoi geiriau gyda'i gilydd i ffurfio brawddegau
- siarad yn glir
- defnyddio iaith briodol mewn cyd-destun

Gall fod gan blant neu bobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu rai o'r anawsterau uchod neu bob un ohonynt; mae pawb yn wahanol.

Gall fod yn anodd adnabod anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae hyn yn golygu, yn hytrach nag anawsterau cyfathrebu, y gall pobl weld plant sy'n ei chael hi'n anodd darllen, sy'n ymddwyn yn wael, neu sy'n ei chael hi'n anodd dysgu neu gymdeithasu ag eraill. Gall rhai plant a phobl ifanc encilio neu deimlo'n ynysig.

Efallai mai dim ond yn yr ysgol uwchradd y daw anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu i'r golwg oherwydd gofynion cymdeithasol ac academaidd cynyddol. Yn achos rhai pobl ifanc, ymddengys fod eu hanawsterau yn gwella yn yr ysgol gynradd ond yna maent yn ailymddangos unwaith eto yn yr ysgol uwchradd.

## Cyd-destun yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad

Mae'r ymateb hwn yn seiliedig ar ein profiad gwasanaeth a'n gwybodaeth am yr ymchwil i anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Yn arbennig Rhaglen Ymchwil Gwell Cyfathrebu fel y nodir yn y papurau canlynol:

- A Generation Adrift (Ionawr 2013) gan yr Ymddiriedolaeth Gyfathrebu.
- The links between speech, language and communication needs and social disadvantage (Chwefror 2013) gan y Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar Anawsterau Lleferydd ac Iaith.

# Y cysylltiadau rhwng tlodi ac anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

## Pa mor gyffredin ydynt

Mae'r cysylltiadau rhwng anfantais gymdeithasol ac anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn gymhleth. Fodd bynnag, mae digon o dystiolaeth i gadarnhau bod amrywiaeth o ffactorau sy'n bennaf cysylltiedig â mantais gymdeithasol yn cyfyngu ar ddatblygiad sgiliau cyfathrebu plant[i].

Mae cysylltiad cryf rhwng anfantais gymdeithasol a pha mor gyffredin yw anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae tystiolaeth gref bod yr anghenion hyn yn fwy cyffredin mewn ardaloedd sydd dan anfantais gymdeithasol. Mewn rhai ardaloedd o amddifadedd, mae dros 50% o blant yn dechrau'r ysgol ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod mantais gymdeithasol yn gysylltiedig â lefelau geirfa yn 5 oed. Mae plant o deuluoedd incwm isel bron flwyddyn ar ei hôl hi o ran geirfa wrth ddechrau'r ysgol, gyda'r bylchau mewn iaith yn llawer mwy na'r bylchau mewn sgiliau gwybyddol eraill (Waldfogel et al, 2010).

## Effaith

Mae'r cysylltiadau rhwng anfantais gymdeithasol ac anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn mynd i'r ddau gyfeiriad. Mae anfantais gymdeithasol yn dylanwadu ar ba mor gyffredin yw anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ac mae'r anghenion hyn yn dylanwadu ar ganlyniadau cymdeithasol ac economaidd diweddarach ymhlith plant a phobl ifanc.

Mae angen i blant gael iaith er mwyn dysgu. Caiff anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu sgil-effaith ar fod yn barod am yr ysgol, llythrennedd a pherfformiad ysgol yn gyffredinol, felly mae hefyd yn peri risg i blant o ystod eang o ganlyniadau hirdymor eraill mewn perthynas â llythrennedd, iechyd meddwl a gwaith. Nododd astudiaeth a ddefnyddiodd ddata o 17,196 o blant a anwyd yn y DU, gan eu dilyn o ddechrau'r ysgol i fod yn oedolyn, hyd yn oed ar ôl addasu ar gyfer amrywiaeth o ffactorau eraill, mae cryn gysylltiad rhwng anawsterau o ran geirfa yn 5 oed a llythrennedd gwael, iechyd meddwl a chanlyniadau gwaith yn 34 oed (Law et al 2009).

Hefyd, mae cryn gysylltiad rhwng anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ac ymddygiad, er bod natur hyn yn gymhleth. Fel rhan o'i thystiolaeth lafar i'r Grŵp Seneddol Trawsbleidiol, tynnodd yr Athro Karen Bryan sylw at y ffaith bod ymchwil wedi dangos yn gyson fod gan o leiaf 60% o droseddwyr ifanc anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ond dim ond mewn 5% o achosion y cawsant eu nodi cyn iddynt ddechrau troseddu (Bryan, 2004). Dangosodd astudiaeth o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant fod gan dros hanner (54%) yr unigolion a wnaeth gwblhau asesiadau therapi lleferydd ac iaith anabledd cyfathrebu difrifol. Dim ond 21% a oedd wedi cael eu hatgyfeirio'n flaenorol am therapi lleferydd ac iaith (Lanz, 2009).

## Adnabod

Ni chaiff llawer o blant a phobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu eu hadnabod na'u cefnogi'n gywir ar bob cam allweddol.

Nododd rhaglen 'Talk of the Town' yr Ymddiriedolaeth Gyfathrebu nad oedd tua 40% o blant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael eu hadnabod: ymhlith y mwyaf anodd i'w hadnabod oedd myfyrwyr hŷn.

Daeth Rhaglen Ymchwil Gwell Cyfathrebu i'r casgliad y gall asesiad Athro o ddatblygiad plentyn yn 5 oed, sy'n seiliedig ar broses arsylwi barhaus, yn hytrach na phrofion ffurfiol, gael ei ddefnyddio i adnabod plant sy'n wynebu risg o anawsterau addysgol hwyr. Fodd bynnag, dim ond 50% o blant ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a gaiff eu hadnabod o hyd drwy broses sgrinio untro felly mae monitro sgiliau iaith plant yn rheolaidd gan staff sydd wedi cael eu hyfforddi'n addas yn fwy effeithiol.

Gwelwyd mai geirfa yn 5 oed yw'r rhagfynegydd gorau (o amrywiaeth o fesurau yn 5 a 10 oed) o ran p'un a allai plant a wnaeth brofi amddifadedd cymdeithasol mewn plentyndod 'drawsnewid pethau' a dianc rhag tlodi fel oedolyn yn ddiweddarach.

## Atal a lleddfu

Nid tlodi, fel y cyfryw, ond amgylcheddau cyfathrebu'r plentyn sy'n gwneud y gwahaniaeth.

Gall anawsterau gael eu hatal neu eu lleddfu drwy amgylcheddau dysgu iaith lafar effeithiol ynghyd â monitro anghenion yn rheolaidd dros amser. Drwy wneud hyn, pan fydd angen cymorth ychwanegol, fe'i rhoddir mewn modd priodol ac amserol. Edrychodd un astudiaeth gan Raglen Ymchwil Gwell Cyfathrebu ar dair agwedd ar gymorth ym maes cyfathrebu plant:

i) yr amgylchedd dysgu iaith (amgylchedd ffisegol a chyd-destun dysgu).
ii) cyfleoedd dysgu iaith (y cyfleoedd strwythuredig i gefnogi datblygiad iaith plant)
iii) technegau rhyngweithio dysgu iaith (y ffordd y mae oedolion yn y lleoliad yn siarad â phlant).

Nododd yr astudiaeth fod sgorau ar gyfer yr ail a'r drydedd agwedd yn is, gan bwysleisio'r angen i bob aelod o staff mewn ysgolion allu gwneud defnydd da o'r technegau rhyngweithio a ddangoswyd i ddatblygu iaith lafar.

Mae Afasic Cymru yn ystyried dulliau gweithredu sy'n datblygu proses systemau cyfan. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried treialu dull gweithredu ysgol gyfan sy'n

archwilio'r tair agwedd uchod gan gynnwys elfennau sy'n gysylltiedig ag arwain a rheoli ysgol a all gefnogi cyfathrebu.

## Argymhellion

1. Mae Afasic Cymru yn falch o nodi bod Llywodraeth Cymru wedi gwahodd yr Athro Iram Siraj-Blatchford o Brifysgol Llundain i edrych ar y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys dilyniant o Dechrau'n Deg.

a) Mae angen i ymyriadau a chanlyniadau Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen gael eu gwerthuso'n gadarn er mwyn cynnwys cyfeiriad penodol at ganlyniadau lleferydd, iaith a chyfathrebu.

2. Mae datblygiad proffesiynol cynaliadwy'r gweithlu yn hanfodol i ddarparu darpariaeth gyffredinol effeithiol. Yn hanfodol, mae hyn yn cynnwys amgylcheddau iaith lafar da yn y cyfnodau allweddol, gan gynnwys gwell system adnabod.

a) Mae Afasic Cymru yn awyddus i gefnogi'r gwaith o ddatblygu fframwaith ar gyfer dull gweithredu ysgol gyfan fel y gall sefydliad addysgol ddarparu amgylchedd iaith lafar yn systematig sy'n meithrin sgiliau cyfathrebu ardderchog sy'n gysylltiedig â'r fframwaith gwella ysgol.

b) Hoffai Afasic Cymru weld hyn yn cael ei weithredu fel rhan annatod ond gwell o'r Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol.

c) Ym marn Afasic Cymru, er mwyn i ysgolion dorri'r cysylltiad rhwng cyrhaeddiad a thlodi, mae'n hanfodol i hyfforddiant lleferydd ac iaith fod yn rhan orfodol o hyfforddiant cychwynnol athrawon.

d) Mae Afasic Cymru yn gweithio i ddatblygu'r wybodaeth sydd ar gael ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus pob athro ac aelod o staff cymorth yn y system addysg, o'r blynyddoedd cynnar i addysg bellach.

## Cyfeiriadau

A Generation Adrift (Ionawr 2013) gan yr Ymddiriedolaeth Gyfathrebu. A Generation Adrift https://www.thecommunicationtrust.org.uk/resources/resources/resources-for-practitioners/a-generation-adrift.aspx

Rhaglen Ymchwil Gwell Cyfathrebu https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-education/series/better-communication-research-programme

The links between speech, language and communication needs and social disadvantage (Chwefror 2013) gan y Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar Anawsterau Lleferydd ac Iaith. http://www.rcslt.org/governments/docs/all_party_parliamentary_group_on_slcn_inquiry_report

Bryan, K. (2004) Prevalence of the speech and language difficulties in young offenders. International Journal of Language and Communication Disorders, 39, 391-400.

Lanz, R. (2009) Speech and Language Therapy with the Milton Keynes Youth Offending Team, a four month project.

Locke, E., Ginsborg, J., a Peers, I. (2002) Development and Disadvantage: implications for early years. International Journal of Language and Communication Disorders. 27 (1). T.3-15

Ofsted (2012) The report of Her Majesty's Chief Inspector of Education, Children's Services and Skills: Schools.

Waldfogel, J. a Washbrook, E. (2010) Low income and early cognitive development in the U.K. Llundain: Ymddiriedolaeth Sutton.